

Sut mae log cynnydd yn edrych a beth mae'r colofnau yn ei olygu?

5.2a Deilliannau dysgu gwybodaeth graidd ar gyfer pob gweithiwr	Tystiolaeth a ddefnyddiwyd	Aseswyd gan bwy a phryd	Llofnodion
<p>Dyma lle mae'r deilliannau dysgu wedi'u rhestru sy'n ffurfio pob adran o'r Fframwaith Sefydlu. Mae deilliannau dysgu gwybodaeth graidd a deilliannau dysgu ymarfer.</p>	<p>Dyma lle rydych yn cofnodi'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddangos bod y gweithiwr wedi cyflawni'r deilliant dysgu (e.e. cwblhau gweithlyfrau neu nodiadau goruchwyllo).</p> <p>Os oes gennych chi dystiolaeth addas o ddysgu neu sgiliau blaenorol sy'n ymdrin â'r deilliannau dysgu, dylid eu cofnodi yn y golofn hon.</p> <p>Gall y rhain gynnwys tystysgrifau / cymwysterau e.e. Pasbort Symud a Thrafod Cymru Gyfan.</p>	<p>Dylai hyn gael ei wneud gan y person a wnaeth y dyfarniad bod y deilliant dysgu wedi'i fodloni (e.e. mentor, arweinydd tîm, goruchwyllydd).</p>	<p>Dylai'r gweithiwr a'r sawl a wnaeth y dyfarniad lofnodi a dyddio yma i gadarnhau bod y deilliannau dysgu wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Bydd llofnod hefyd yn cadarnhau ei fod wedi gweld a derbyn unrhyw dystysgrif / cymhwyster fel dystiolaeth o ddysgu blaenorol.</p>

Enghraifft o log cynnydd wedi'i gwblhau

Dyma enghraifft o log cynnydd wedi'i gwblhau sy'n dangos sut y gallwch gofnodi'r gwahanol fathau o dystiolaeth a ddefnyddiwyd.

5.2a Deilliannau dysgu gwybodaeth graidd ar gyfer pob gweithiwr	Tystiolaeth a ddefnyddiwyd	Aseswyd gan bwy a phryd	Llofnodion
Egwyddorion gweithio mewn partneriaeth	Gweithgareddau a gwblhawyd yng ngweithlyfr 5	(Enw) Arweinydd tîm (dyddiad)	Llofnod arweinydd tîm Llofnod y gweithiwr
Beth mae'r term 'cydgynhyrchu' yn ei olygu mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ag eraill	Gweithgareddau a gwblhawyd yng ngweithlyfr 5	(Enw) Rheolwr llinell (dyddiad)	Llofnod y rheolwr llinell Llofnod y gweithiwr
Ystod a rolau gweithwyr eraill a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	Gweithgareddau a gwblhawyd yng ngweithlyfr 5	(Enw) Arweinydd tîm (dyddiad)	Llofnod arweinydd tîm Llofnod y gweithiwr
Pwysigrwydd gweithio aml-asiantaethol	Trafodaeth yn ystod y cyfarfod tîm (dyddiad)	(Enw) Arweinydd tîm (dyddiad)	Llofnod arweinydd tîm Llofnod y gweithiwr
Pwysigrwydd datblygu perthynas dda tra'n cynnal ffiniau proffesiynol clir wrth weithio gyda gweithwyr eraill a gweithwyr proffesiynol,	Hyfforddiant tîm, wedi'i gwblhau ar (dyddiad)	(Enw) Arweinydd tîm (dyddiad)	Llofnod arweinydd tîm Llofnod y gweithiwr

gofalwyr a theuluoedd yn ogystal ag unigolion			
Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n meithrin ymddiriedaeth	Trafodaethau yn ystod cyfarfodydd cynnydd un wrth un a goruchwyliaeth (dyddiad)	(Enw) Rheolwr llinell (dyddiad)	Llofnod y rheolwr llinell Llofnod y gweithiwr
Pwysigrwydd parchu amrywiaeth a chydabod gwahaniaethau diwylliannol, crefyddol, ethnig ac ieithyddol wrth weithio mewn partneriaeth	Gweithgareddau a gwblhawyd yng ngweithlyfr 5	(Enw) Rheolwr llinell (dyddiad)	Llofnod y rheolwr llinell Llofnod y gweithiwr
5.2b Deilliannau Dysgu o Ymarfer: Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:	Tystiolaeth a ddefnyddiwyd	Aseswyd gan bwy a phryd	Llofnodion
Cydnabod ystod a rolau gweithwyr eraill yn eich sefydliad ac asiantaethau eraill y gallech ddod i gysylltiad â nhw	Adborth gan gyd-weithwyr (dyddiad), rheolwr llinell (dyddiad) a therapydd galwedigaethol sy'n ymweld (dyddiad)	(Enw) Rheolwr llinell (dyddiad)	Llofnod y rheolwr llinell Llofnod y gweithiwr
Cymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a	Arsylwadau (dyddiadau)	(Enw) Arweinydd tîm (dyddiad)	Llofnod arweinydd tîm Llofnod y gweithiwr

chyd-gynhyrchu yn eich gwaith gydag eraill			
Cymhwyso egwyddorion cyfrinachedd ym mhob cyfathrebu ag eraill	Arsylwadau (dyddiadau)	(Enw) Arweinydd tîm (dyddiad)	Llofnod arweinydd tîm Llofnod y gweithiwr
Datblygu perthynas waith dda gyda gweithwyr eraill a gweithwyr proffesiynol tra'n cynnal ffiniau proffesiynol clir	Adborth gan gyd-weithwyr (dyddiad), arweinydd tîm (dyddiad) a therapydd galwedigaethol sy'n ymweld (dyddiad)	(Enw) Arweinydd tîm (dyddiad)	Llofnod arweinydd tîm Llofnod y gweithiwr